# WythnosLlyfrgelloedd

Ymunwch ag e-Lyfrgell GIG Cymru wrth i ni ddathlu #WythnosLlyfrgelloedd yn 2022.

Cliciwch ar unrhyw un o'r digwyddiadau i ymuno

| | |
|---|---|
| Dydd Llun: | Hanner dydd – Ffocws ar gronfa ddata Trip Pro<br><br>Ymunwch â dathliad yr e-Lyfrgell o adnoddau digidol drwy gydol Wythnos Llyfrgelloedd.<br><br>Bydd y sesiwn hon a gyflwynir gan Jon Brassey yn edrych ar gronfa ddata TRIP:<br>• Ble i ddod o hyd i TRIP Pro<br>• Beth sy'n newydd yn TRIP Pro<br>• Arddangosiad o'r nodweddion uwch<br>• Gofynnwch unrhyw beth i mi – eich cyfle chi i ofyn eich cwestiynau llosg am yr e-adnodd hwn<br><br>(30 munud) |
| Dydd Mawrth | Hanner dydd -Canolbwyntio ar ClinicalKey a ClinicalKey for Nursing<br><br>Ymunwch â Gladys o Elsevier wrth iddi ganolbwyntio ar ClinicalKey a ClinicalKey for Nursing<br><br>A wyddoch chi...<br><br>Os ydych yn **Ymchwilydd**; Mae gan ClinicalKey a ClinicalKey for Nursing filoedd o ddelweddau a fideos y gallwch eu defnyddio at ddibenion anfasnachol? Y gallwch chi danysgrifio i'ch hoff gyfnodolion? Neu y gallwch chi drefnu'ch chwiliadau a'ch cynnwys trwy ddefnyddio tagiau?<br><br>Os ydych yn **Glinigydd neu Nyrs**; Gall ClinicalKey a ClinicalKey for Nursing eich cefnogi chi a'ch diagnsosis drwy ffrwd Clinical Overviews cryno gyda'r cynnwys diweddaraf sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd ar gael? Cyfrifwyr clinigol a all gefnogi eich profiad yn y pwynt gofal? Neu ei fod yn lle da i chwilio am ganllawiau NICE?<br><br>Ymunwch â ni am sesiwn ar sut i gael y defnydd gorau o'ch tanysgrifiadau ac yna sesiwn Holi ac Ateb i ateb unrhyw gwestiwn.<br><br>(30 munud) |
| Dydd Mercher | 10am Dod o hyd i Wybodaeth: Gweminar Chwilio am Lenyddiaeth<br><br>Ymunwch â ni am weminar 1 awr a fydd yn eich cyflwyno i ddulliau effeithiol ar gyfer chwilio am lenyddiaeth. Bydd y sesiwn yn gwneud defnydd o gronfeydd data sydd ar gael i holl staff a myfyrwyr GIG Cymru trwy e-Lyfrgell GIG Cymru. P’un a ydych yn fyfyriwr sy’n dilyn cwrs neu’n weithiwr iechyd proffesiynol sydd eisiau gwneud dim mwy na chadw i fyny â’r dystiolaeth i gefnogi eich datblygiad proffesiynol parhaus, mae’r weminar hon i chi. Byddwch yn ennyn hyder i lunio strategaeth chwilio berthnasol a'i chymhwyso i'r cronfeydd data priodol i ddod o hyd i'r dystiolaeth. |

| | |
|---|---|
| | (1 awr) |
| Dydd Iau | 2yp – Ffocws ar Ddysgu BMJ<br><br>Ymunwch â dathliad yr e-Lyfrgell o adnoddau digidol drwy gydol Wythnos Llyfrgelloedd.<br><br>Bydd y sesiwn hon yn archwilio BMJ Learning, a gyflwynir gan Ali Boukabache:<br>• Ble i ddod o hyd i BMJ Learning a sut i'w ddefnyddio.<br>• Rhywbeth i bawb - dewch o hyd i bynciau clinigol ac anghlinigol i'ch cefnogi chi<br>• Gofynnwch unrhyw beth i mi – eich cyfle chi i ofyn eich cwestiynau llosg am yr e-adnodd hwn<br>(30 munud) |
| Dydd Gwener | Hanner dydd - Ffocws ar Gronfeydd Data ProQuest<br><br>Ymunwch â dathliad yr e-Lyfrgell o adnoddau digidol drwy gydol Wythnos Llyfrgelloedd.<br><br>Bydd y sesiwn hon yn archwilio cronfeydd data ProQuest, a gyflwynir gan Daniela<br>• Ble i ddod o hyd i gronfeydd data sy'n defnyddio platfform ProQuest<br>• Yr hyn sy'n newydd yn y platfform<br>• Arddangosiad o'r nodweddion uwch<br>• "Gofynnwch unrhyw beth i mi" – eich cyfle chi i ofyn eich cwestiynau llosg am yr e-adnodd hwn<br>(30 munud) |